

2012 Rhif (Cy.)

2012 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Betws-y-coed, Conwy) (Gwahardd
Aros) 2012

The A5 Trunk Road (Betws-y-
Coed, Conwy) (Prohibition of
Waiting) Order 2012

Gwnaed 20 Medi 2012

Made 20 September 2012

Yn dod i rym 28 Medi 2012

Coming into force 28 September 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5 o Lundain i Gaergybi (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A5 London to Holyhead Trunk Road (hereinafter referred to as “the trunk road”), in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2) and 4(2) to the Road Traffic Regulation Act 1984(1) (hereinafter referred to as “the 1984 Act”), and after consultation with the Chief Officer of the North Wales Police hereby makes the following Order:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Medi 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Betws-y-coed, Conwy) (Gwahardd Aros) 2012.

1. This Order comes into force on 28 September 2012. The title to this Order is the A5 Trunk Road (Betws-y-Coed, Conwy) (Prohibition of Waiting) Order 2012.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn –

2. (1) In this Order –

mae i “bathodyn person anabl” yr ystyr a roddir i “disabled person’s badge” yn Rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur (Cymru) 2000(2).

“disabled person’s badge” (“*bathodyn person anabl*”) has the meaning given in Regulation 2 of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(2).

mae i “disg barcio” yr ystyr a roddir i “parking disc” yn Rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3).

“parking disc” (“*disg barcio*”) has the meaning given in Regulation 8(5) of the Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000(3).

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:-

(2) For the purposes of this Order a vehicle is regarded as displaying:-

(i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:-

(i) a disabled person’s badge in the relevant position if:-

(a) os yw'r bathodyn, yn achos

(a) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel, the

cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, yn cael ei arddangos ar y panel neu'r dangosfwrdd fel bod blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd, neu

(b) os yw'r bathodyn, yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(ii) disg parcio yn y lle perthnasol :-

(a) yn achos cerbyd y mae iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. (1) Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:-

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y

badge is exhibited thereon so that the front of the badge is clearly legible from the outside of the vehicle, or

(b) in the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited in a conspicuous position in or on the vehicle so that the front of the badge is clearly legible from outside the vehicle; and

(ii) a parking disc in the relevant position if:-

(a) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel the disc is exhibited on it so that the quarter-hour period during which the period of waiting began is clearly legible from outside the vehicle; or

(b) in the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel the disc is exhibited in a conspicuous position in or on the vehicle so that the quarter-hour period during which the period of waiting began is clearly legible from outside the vehicle.

(3) Any reference in this Order to a numbered Article or Schedule is a reference to the Article or Schedule bearing that number in this Order.

3. Save as provided in article 4, no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer, traffic officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. (1) Nothing in article 3 shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order for so long as may be necessary to enable:-

(a) a person to board or alight from a vehicle;

(b) goods to be loaded on or unloaded from the vehicle;

(c) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purpose in any other road,

cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, sef:-

i. gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

ii. symud unrhyw rwystr i draffig;

iii. gwaith cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd; neu

iv. gosod, codi, newid neu drwsio, ar y darnau hynny o'r gefnffordd, neu ar dir cyfagos iddynt, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw offer ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebu 2003(4);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn hwnnw o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) i gerbyd sy'n aros;

i. pan fo'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r person sydd â rheolaeth arno, stopio;

ii. pan fo'r person sydd â rheolaeth arno yn rhwym o stopio er mwyn osgoi damwain; neu

iii. pan fo'r person sydd â rheolaeth arno yn cael ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau y tu allan i'w reolaeth.

(2) Nid oes dim yn Erthygl 3 yn ei

to be used in connection with any of the following operations, namely:-

i. building, industrial or demolition operations;

ii. the removal of any obstruction to traffic;

iii. the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths of road; or

iv. the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to, the said lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any telegraphic line as defined in the Communications Act 2003(4);

(d) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory powers or duties;

(e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the said length of the trunk road;

(f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(g) the vehicle stopping when the person in control of it;

i. is required by law to stop;

ii. is obliged to stop in order to avoid an accident; or

iii. is prevented from proceeding by circumstances outside his control.

(2) Nothing in Article 3 shall render it unlawful to cause or permit a disabled person's vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle has marked the time at which the period of waiting began), to wait on any of the sides of the lengths of the trunk road referred to therein for a period not exceeding 3 hours, being a period separated by an interval of at least one hour from any previous period of waiting by the same vehicle on the same day on any of those sides of the specified lengths of the trunk

gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl y mae bathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gofalu am y cerbyd, wedi marcio arnynt yr amser pan ddechreuodd y cyfnod aros) yn cael eu harddangos arno aros ar unrhyw un o ochrau'r darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, a bod hwnnw'n gyfnod sydd wedi ei wahanu gan ysbaid o un awr o leiaf oddi wrth gyfnod blaenorol pan fu'r un cerbyd ar yr un diwrnod yn aros ar unrhyw un neu rai o'r darnau penodedig o'r gefnffordd.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 20 Medi 2012

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27 Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S.2000/1786
- (3) O.S.2000/1785
- (4) 2003 p.21

YR ATODLEN

Darnau o Gefnffordd yr A5 ym Metws-y-coed yn Sir Conwy.

Ochr ddeheuol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Dolydd Terrace, Pentre Du mewn cyfeiriad dwyreiniol i bwynt sydd 15 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y gyffordd honno.

Ochr ddeheuol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Ffordd Gethin, Bro Gethin mewn cyfeiriad dwyreiniol i bwynt sydd 30 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y gyffordd honno.

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5 a elwir yn Ffordd Caergybi, Betws-y-coed, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Vicarage Road mewn cyfeiriad deheuol i bwynt sydd 15 o fetrau i'r de o linell ganol y gyffordd honno.

road.

Signed under authority of the Minister for Local Government and Communities, one of the Welsh Ministers

Dated 20 September 2012

RICHARD MORGAN

Head of Asset Management Standards
Welsh Government

- (1) 1984 c.27 By virtue of S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now transferred to the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) S.I.2000/1786
- (3) S.I.2000/1785
- (4) 2003 c.21

SCHEDULE

Lengths of the A5 Trunk Road at Betws-y-Coed in the County of Conwy.

The southern side of that length of the A5 trunk road, from a point 15 metres west of the centreline of its junction with Dolydd Terrace, Pentre Du in an easterly direction to a point 15 metres east of the centreline of that junction.

The southern side of that length of the A5 trunk road, from a point 15 metres west of the centreline of its junction with Ffordd Gethin, Bro Gethin in an easterly direction to a point 30 metres east of the centreline of that junction.

The western side of that length of the A5 trunk road known as Holyhead Road, Betws-y-Coed, from a point 15 metres north of the centreline of its junction with Vicarage Road in a southerly direction to a point 15 metres south of the centreline of that junction.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (BETWS-Y-COED, CONWY) (GWAHARDD AROS) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 sy'n dod i rym ar 28 Medi 2012.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd aros ar ochrau'r darnau o gefnffordd yr A5 o Lundain i Gaerdydd (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") ym Metws-y-coed yn Sir Conwy, fel a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 27 Medi 2012, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn ynghyd â phlan cysylltiedig yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Llanwrst, Plas yn Dre, Heol yr Orsaf, Llanwrst LL26 0DF neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA966204.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwstiyntu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth o'i fewn, ar y seiliau:

- a) nad yw o fewn pwerau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b) y rhagfarnwyd yn sylweddol yn erbyn ei fuddiannau gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofnyion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 27 Medi 2012 wneud cais i'r Uchel Lys i atal neu ddi-ddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a gaiff ei chynnwys ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchymynion Traffig Parhaol', '2012').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL

Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth,
Llywodraeth Cymru

THE A5 TRUNK ROAD (BETWS-Y-COED, CONWY) (PROHIBITION OF WAITING) ORDER 2012

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under sections 1(1), 2(1) and (2), and 4(2) to the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 28 September 2012.

The effect of the Order is to prohibit waiting on the sides of the lengths of the A5 London to Holyhead Trunk Road (hereinafter referred to as "the trunk road") at Betws-y-Coed in the County of Conwy, as described in the Schedule to this Notice.

During a period of 6 weeks from 27 September 2012 a copy of the Order and associated plan may be inspected during normal office hours at the Llanwrst Library, Plas yn Dre, Station Road, Llanwrst LL26 0DF or may be obtained free of charge from the address below quoting the reference number qA966204.

If any person wishes to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

- a) that it is not within the powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
- b) that his/her interests have been prejudiced substantially by a failure to comply with any of the requirements of the Act,

they may, within 6 weeks of 27 September 2012, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (select 'Legislation', 'Subordinate Legislation', 'Local Statutory Instruments', 'Permanent Traffic Orders', '2012').

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL

Transport Orders Branch
Welsh Government

YR ATODLEN

DARNAU O GEFNFFORDD YR A5 YM METWS-Y-COED YN SIR CONWY.

Ochr ddeheuol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Dolydd Terrace, Pentre Du mewn cyfeiriad dwyreiniol i bwynt sydd 15 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y gyffordd honno.

Ochr ddeheuol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Ffordd Gethin, Bro Gethin mewn cyfeiriad dwyreiniol i bwynt sydd 30 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y gyffordd honno.

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd yr A5 a elwir yn Ffordd Caergybi, Betws-y-coed, o bwynt sydd 15 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol ei chyffordd â Vicarage Road mewn cyfeiriad deheuol i bwynt sydd 15 o fetrau i'r de o linell ganol y gyffordd honno.

SCHEDULE

LENGTHS OF THE A5 TRUNK ROAD AT BETWS-Y-COED IN THE COUNTY OF CONWY.

The southern side of that length of the A5 trunk road, from a point 15 metres west of the centreline of its junction with Dolydd Terrace, Pentre Du in an easterly direction to a point 15 metres east of the centreline of that junction.

The southern side of that length of the A5 trunk road, from a point 15 metres west of the centreline of its junction with the Ffordd Gethin, Bro Gethin in an easterly direction to a point 30 metres east of the centreline of that junction.

The western side of that length of the A5 trunk road known as Holyhead Road, Betws-y-Coed, from a point 15 metres north of the centreline of its junction with Vicarage Road in a southerly direction to a point 15 metres south of the centreline of that junction.